

Jeremy Miles AS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Llywodraeth Cymru

23 Hydref 2020

Annwyl Jeremy,

Parodrwydd yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

Drwy gydol y broses Brexit mae ein Pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd mewn materion parodrwydd ac wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol ar bob cam yn ei ystyriaeth o'r materion hyn. Yn ystod tymor yr hydref clywsom gan amrywiaeth o randdeiliaid o sectorau allweddol gan gynnwys porthladdoedd a logisteg; bwyd, diod, pysgodfeydd ac amaethyddiaeth; a meddyginiaethau. Mae rhestr lawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys lincs i drawsgrifiadau, a lincs i dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law fel rhan o'n hymgyngoriad, wedi'i darparu fel atodiad i'r llythyr hwn.

Mae rhai o'r themâu a nodwyd gan randdeiliaid yn gyfarwydd ac mae llawer ohonynt yn gyson â'r materion a godwyd yn ystod **gwaith cynharach y Pwyllgor ar barodrwydd ar gyfer Brexit**. Fodd bynnag, mae arwyddocâd ychwanegol iddynt o ystyried yr amserlen fer iawn rhwng nawr a diwedd y cyfnod pontio, ynghyd ag effaith y pandemig COVID-19. Clywsom fod ansicrwydd am y canlyniad yn y pen draw, gan gynnwys a fydd cytundeb rhwng y DU a'r UE ai peidio, yn peri anawsterau o ran parodrwydd sectorau. Mae'r pandemig COVID-19 hefyd wedi lleihau gwytnwch sectorau i wrthsefyll rhagor o ysgytwadau economaidd posibl o ganlyniad i'r broses Brexit.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cyfathrebu clir gan y Llywodraeth, yn enwedig ar gyfer mentrau llai a chanolig nad oes ganddynt y gallu na'r adnoddau i'w neilltuo, o bosibl, i gynllunio ar gyfer y pontio Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y wybodaeth a'r canllawiau a ddarperir gan y Llywodraeth drwy ei llwyfannau ar-lein fel Paratoi Cymru, yn gynhwysfawr ac yn hawdd eu llywio.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddMADY@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddEAAL@senedd.wales

☎ 0300 200 6565


Nodwn, ar 18 Hydref fod Boris Johnson, y Prif Weinidog, wedi annog arweinwyr busnes i **gynyddu'r paratodau ar gyfer ymadael â 'dim cytundeb'** ar ddiwedd y cyfnod pontio. Rydym ni fel Pwyllgor, wedi mynegi pryderon yn gyson am y canlyniadau niweidiol iawn posibl y gallai ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb a drafodwyd eu cael, a'r effeithiau anghymesur y gallai canlyniad o'r fath eu cael ar sectorau allweddol o'r economi yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw dod i gytundeb a drafodwyd gyda'r Undeb Ewropeaidd o fewn rôl Llywodraeth Cymru ac rydym wedi croesawu'r camau cymesur a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, ac eraill, i baratoi ar gyfer pob senario Brexit.

Rydym yn ysgrifennu ar yr adeg hon i dynnu eich sylw at ein sesiynau diweddaraf, gan obeithio, a disgwyl, y gellir adlewyrchu'r pryderon a nodwyd a'r materion y mae rhanddeiliaid wedi'u codi gyda ni, yn eich gwaith o ran parodrwydd, ac yn y Cynllun Diwedd Pontio y disgwyliwn yn ddiweddarach yr hydref hwn.

Hoffem hefyd fynegi ein disgwyliad clir y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymdrechu ddwywaith mor frwd i ymgysylltu â'i gilydd ar lefel gweinidogol ac ar lefel swyddogion â'i gilydd yn ystod yr wythnosau nesaf, er mwyn gwneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Yn gywir,



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad - rhestr o dystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig

Dyddiad	Sectorau	Tystion	Linc
1 Hydref	Porthladdoedd a logisteg	Richard Ballatyne, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain Duncan Buchanon, y Gymdeithas Cludiant Ffyrdd Mags Simpson, Logistics UK	<u>Gweld y trawsgriafiad</u>
8 Hydref	Bwyd a diod	Julie Byers - Ffederasiwn Bwyd a Diod Andy Richardson - Bwyd a Diod Cymru	<u>Gweld y trawsgriafiad</u>
	Pysgodfeydd	Jim Evans - Cymdeithas Pysgotwyr Cymru	<u>Gweld y trawsgriafiad</u>
	Amaethyddiaeth	Nick Fenwick - Undeb Amaethwyr Cymru Huw Thomas - Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	<u>Gweld y trawsgriafiad</u>
15 Hydref	Meddyginiaethau	Dr Richard Greville, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain	<u>Gweld y trawsgriafiad</u>



		Judith Vincent - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar ran Cydffederasiwn GIG Cymru	
--	--	---	--

Cafodd y Pwyllgor yr ymatebion ysgrifenedig a ganlyn i'w **ymgyngoriad**:

- [EUP01 Cruelty Free International \(Saesneg yn unig\) PDF 1 MB](#)
- [EUP02 Cyngor Celfyddydau Cymru - Celfyddydau Rhyngwladol Cymru PDF 147 KB](#)
- [EUP03 Colegau Cymru \(Saesneg yn unig\) PDF 298 KB](#)
- [EUP04 Cymorth i Ferched Cymru \(Saesneg yn unig\) PDF 110 KB](#)
- [EUP05 Cymdeithas Filfeddygol Prydain \(Saesneg yn unig\) PDF 162 KB](#)
- [EUP06 Ffederasiwn y Busnesau Bach \(Saesneg yn unig\) PDF 376 KB Gweld fel HTML \(6\)51 KB](#)
- [EUP07 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain \(ABPI\) \(Saesneg yn unig\) PDF 312 KB Gweld fel HTML \(7\)47 KB](#)
- [EUP08 Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru PDF 204 KB Gweld fel HTML \(8\)25 KB](#)

